# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 7

TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

*Y Tribiwnlys*

### 120 Tribiwnlys y Gymraeg

(1) Bydd yna Dribiwnlys y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel y "Tribiwnlys").

(2) Yr aelodau canlynol fydd aelodau'r Tribiwnlys—

- (a) Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel y "Llywydd");
- (b) aelodau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith; ac
- (c) aelodau lleyg.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Tribiwnlys.

(4) Mae Atodlen 11 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y Tribiwnlys.

### 121 Cyfansoddiad ar gyfer achosion gerbron y Tribiwnlys

(1) Rhaid i'r Llywydd ddewis yr aelodau o'r Tribiwnlys sydd i ymdrin ag achosion penodol gerbron y Tribiwnlys.

(2) Rhaid i'r Llywydd ddewis tri aelod o'r Tribiwnlys i ymdrin â'r achosion.

(3) Rhaid i'r Llywydd sicrhau bod—

- (a) o leiaf un o'r tri aelod yn aelod cyfreithiol, a
- (b) o leiaf un o'r tri aelod yn aelod lleyg.

(4) Os dim ond un o'r tri aelod sy'n aelod cyfreithiol, yr aelod cyfreithiol hwnnw sydd i gadeirio'r achos.

(5) Os oes mwy nag un o'r tri aelod yn aelodau cyfreithiol, mae'r Llywydd i ddewis yr aelod cyfreithiol sydd i gadeirio'r achos.

(6) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

(7) Yn yr adran hon ystyr "aelod cyfreithiol" yw—

(a) y Llywydd, neu

(b) aelod o'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith.

**122 Gwrandawiadau cyhoeddus**

(1) Mae achosion gerbron y Tribiwnlys i'w cynnal yn gyhoeddus.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.